



Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Phersonél

Adolygwyd	Cymeradwywyd	Mabwysiadwyd
08/04/2026	15/04/2026 Cofnod: 318/2526	15/04/2026

Mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn nodi diben, aelodaeth, pwerau dirprwyedig, trefniadau gwaith a llwybr adrodd y Pwyllgor Cyllid a Phersonél a sefydlwyd gan Gyngor Cymuned Y Fali.

1. Diben y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Phersonél ("y Pwyllgor") wedi'i sefydlu gan Gyngor Cymuned Y Fali i oruchwylio ac adolygu materion ariannol a phersonél y Cyngor, ac i wneud argymhellion priodol i'r Cyngor Llawn.

Diben y Pwyllgor yw:

- a. Goruchwylio rheolaeth ariannol briodol y Cyngor yn unol â'r Rheoliadau Ariannol, y Rheolau

Sefydlog ac unrhyw ofynion cytundebol neu gaffael perthnasol.

- b. Goruchwylio materion cyflogaeth a thelerau ac amodau cyflogaeth y Cyngor.

- c. Gwneud argymhellion priodol i'r Cyngor Llawn i'w cadarnhau neu i wneud penderfyniad pellach

arnynt.

2. Statws y Pwyllgor

Pwyllgor cyngorol i'r Cyngor yw'r Pwyllgor oni bai bod y Cyngor Llawn yn dirprwyo swyddogaeth benodol iddo yn ysgrifenedig neu drwy'r Cylch Gorchwyl hwn.

Lle rhoddir pwerau dirprwyedig, bydd y Pwyllgor yn gweithredu'r pwerau hynny yn unol â Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, cyllidebau cymeradwy a gofynion cyfreithiol perthnasol y Cyngor.

3. Pwerau

Ni fydd gan y Pwyllgor unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau cyffredinol heblaw'r rhai sydd wedi'u dirprwyo'n benodol iddo gan y Cyngor Llawn.

Gall y Pwyllgor: ystyried, adolygu a monitro pob mater sydd o fewn ei gylch gwaith; gofyn am wybodaeth ac adroddiadau gan y Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC); a gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn.

Yn ddarostyngedig i gymal 20 o'r Cylch Gorchwyl hwn, Rheoliadau Ariannol y Cyngor, ac o fewn unrhyw gyllideb neu gronfa wrth gefn a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn, bydd gan y Pwyllgor awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo gwariant hyd at £5,000 (heb gynnwys TAW). Os nad yw'r Pwyllgor wedi'i drefnu i gyfarfod mewn pryd i ystyried mater, gellir cyfeirio'r gwariant o fewn y terfyn hwn at y Cyngor Llawn i wneud penderfyniad, er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen.

Ni chaiff y Pwyllgor gymeradwyo unrhyw: wariant; dyfarnu contract; penodi staff; newid i delerau newid i bolisi; proses dendro; na mater arall sydd wedi'i gadw ar gyfer y Cyngor Llawn, oni bai fod awdurdod dirprwyedig penodol wedi'i roi iddo.

4. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ar faterion sy'n cynnwys:

- a. ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor.
- b. system rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.
- c. paratoi cyfrifon yn brydlon a diogelu arian cyhoeddus.
- d. mesurau i atal a chanfod anghywirdebau a thwyll, a nodi dyletswyddau swyddogion.
- e. paratoi'r gyllideb flynyddol, mewn ymgynghoriad â phwyllgorau'r Cyngor, lle bo'n briodol.
- f. trafodion ariannol mawr, dyfarnu contractau a'r praesept blynyddol.
- g. lefelau staffio, strwythur sefydliadol, disgrifiadau swydd a manylebau person.
- h. recriwtio, dethol, penodi, gwirio addasrwydd, cadw staff a rheolaeth gyffredinol staff.
- i. telerau ac amodau cyflogaeth staff, cyflogau, graddfeydd, oriau gwaith, trefniadau pensiwn, lwfansau, treuliau a hawliau gwyliau.
- j. arfarnu staff, rheoli absenoldeb oherwydd salwch, cyfleoedd cyfartal, a gweithrediad gweithdrefnau disgyblu, cwynion, gallu, graddio ac apelio.

k. unrhyw fater ariannol neu bersonél arall a gyfeirir ato gan y Cyngor Llawn neu a ystyrir yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl hwn.

l. adolygiad chwarterol o wariant, ymrwymadau ac amrywiannau'r gyllideb, ynghyd ag unrhyw argymhellion sy'n deillio o hynny.

m. goruchwyllo, diogelu, cynnal a chadw, atgyweirio a chynllunio amnewid tir, adeiladau, offer ac asedau eraill y Cyngor, gan gynnwys cynnal cofrestr asedau briodol.

5. Cyllideb a Chynllunio Ariannol

Bydd y Pwyllgor yn cadw sefyllfa gyllidebol y Cyngor a'i ymrwymadau ariannol tymor canolig dan adolygiad.

Lle bo'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb, bydd y gwaith o baratoi'r gyllideb flynyddol yn cael ei gwblhau mewn modd amserol a'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn ynghyd ag unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried yn briodol.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ynghylch y praesept blynyddol ac unrhyw drosglwyddiad cyllidebol sylweddol, symudiad mewn cronfeydd wrth gefn neu unrhyw fater ariannol sylweddol arall sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu gwariant gwirioneddol ac ymrwymadau sydd heb eu talu yn chwarterol, gan eu cymharu â phenawdau'r gyllideb a gymeradwywyd ac unrhyw gronfeydd wrth gefn perthnasol, a bydd yn adrodd i'r Cyngor Llawn am unrhyw amrywiad sylweddol, risg o orwario neu bwysau cyllidebol sy'n dod i'r amlwg.

6. Rheolaeth Fewnol a Risg

Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod gan y Cyngor system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r Cyngor, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu rheolaethau ariannol, trefniadau cadw cofnodion, bancio a chyfrifyddu, ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau neu argymhellion archwilio sy'n berthnasol i'w gylch gwaith, a bydd yn adrodd i'r Cyngor Llawn fel y bo'n briodol.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cadw cyflwr, diogelwch, anghenion cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu tir, adeiladau, offer ac asedau eraill y Cyngor dan adolygiad, a bydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ynghylch unrhyw waith, adnewyddiadau neu gamau rheoli asedau ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

7. Materion Personél

Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol, ar y cyd â Chlerc y Cyngor ac, os oes angen, chynghorwyr proffesiynol, am adolygu a chynghori ar faterion personél gan gynnwys:

a. strategaeth Adnoddau Dynol a datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol.

b. lefelau staffio a strwythur staffio.

- c. disgrifiadau swydd a manylebau person.
- d. recriwtio, dethol a phenodi staff.
- e. gwirio addasrwydd a chadw staff.
- f. telerau ac amodau cyflogaeth staff, graddfeydd cyflog, tâl, lwfansau, treuliau a chynhaliaeth.
- g. hawliau gwyliu gan gynnwys gwyliu blynyddol, absenoldeb salwch, hawliau statudol ac absenoldeb arbennig.
- h. amodau arbennig sy'n ymwneud â swydd neu unigolyn penodol.
- i. oriau gwaith, trefniadau pensiwn, rheoli absenoldeb oherwydd salwch ac adolygiadau perfformiad staff / arfarnu staff.
- j. gweithrediad gweithdrefnau disgyblu, cwynion, gallu, graddio ac apelio'r Cyngor.
- k. cyfleoedd cyfartal; ac
- l. iechyd, diogelwch a lles staff.

Bydd unrhyw benodiad, diswyddiad neu newid i delerau cyflogaeth yn parhau i gael ei gadw'n gyfrifoldeb i'r Cyngor Llawn, oni bai bod awdurdod dirprwyedig penodol wedi'i roi.

8. Paneli Recriwtio a Staffio

Gellir sefydlu is-bwyllgorau neu baneli llai, wedi'u canolbwyntio ar faterion penodol, lle bo angen i ddelio â materion personél cyfrinachol megis prosesau gallu, disgyblu, cwynion neu apelio, yn unol â gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.

Gellir hefyd sefydlu Panel Recriwtio a Dethol, lle bo angen, ar gyfer ymarferion recriwtio, er enghraifft penodi Clerc, a gall gynnwys y cyfryw aelodau a chynghorwyr ag a bennir gan y Cyngor neu'r Pwyllgor.

9. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys pum Cynghorydd Cymuned sy'n gwasanaethu, oni benderfynir fel arall gan y Cyngor Llawn.

Gall unrhyw gynghorwyr eraill sy'n gwasanaethu ofyn am gael eu penodi i'r Pwyllgor, a bydd aelodaeth yn cael ei chadarnhau yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Bydd enwebiadau i lenwi unrhyw swydd wag sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu penderfynu gan y Cyngor Llawn.

10. Cadeirydd y Pwyllgor

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cael ei benodi gan y Cyngor Llawn yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny os oes angen.

10.1 Os yw Cadeirydd y Pwyllgor yn absennol o gyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn penodi un o'u plith i weithredu fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw, a bydd yr aelod a benodir felly yn llywyddu'r cyfarfod am ei gyfnod cyfan.

11. Cworwm

Cworwm cyfarfod o'r Pwyllgor fydd tri aelod, a rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd y Pwyllgor neu ei enwebai ef neu hi os bydd absenoldeb anorfod.

12. Cyfarfodydd

Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd arferol y Pwyllgor yn chwarterol cyn cyfarfodydd y Cyngor Llawn, neu ar adegau eraill fel y bydd y Cyngor Llawn neu'r Pwyllgor yn eu pennu.

Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol pan fo angen.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir galw cyfarfod brys ar rybudd byrrach yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor a'r gofynion cyfreithiol.

13. Hysbysiad o Gyfarfodydd ac Agenda

Bydd materion i'w trafod mewn cyfarfod yn gyfyngedig i'r rhai a gynhwysir ar yr agenda.

Bydd agenda a hysbysiad y cyfarfod yn cael eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor gan roi o leiaf dri diwrnod clir o rybudd, heb gynnwys dydd Sul a Gwyliau Banc.

Bydd hysbysiad o'r cyfarfod hefyd yn cael ei gyhoeddi yn unol â dyletswyddau cyfreithiol a threfniadau cyfarfod y Cyngor, gan gynnwys yn electronig ac, lle bo'n berthnasol, gyda manylion ynghylch sut y gellir cael mynediad i'r cyfarfod o bell.

14. Presenoldeb a Chyfranogiad y Cyhoedd

Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn agored i'r cyhoedd a'r wasg ac eithrio pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu'n briodol y dylid eithrio busnes cyfrinachol neu fusnes esempt yn unol â'r gyfraith.

Bydd y person sy'n llywyddu'r cyfarfod yn rhoi cyfle rhesymol i aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol wneud sylwadau ar unrhyw fusnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod, oni bai bod gwneud hynny'n debygol o amharu ar gynnal y cyfarfod yn effeithiol, ac yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Cyngor.

15. Cyfarfodydd o Bell ac Aml-leoliad

Gellir cynnal cyfarfodydd yn gyfan gwbl wyneb yn wyneb, yn gyfan gwbl o bell, neu ar sail aml-leoliad yn unol â threfniadau cyfarfod cyhoeddus y Cyngor a'r gofynion cyfreithiol cyfredol.

16. Datgan Buddiannau

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cadw at God Ymddygiad y Cyngor ac yn datgan buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu yn unol â'r Cod hwnnw a Rheolau Sefydlog y Cyngor.

17. Clerc / Ysgrifennydd

Bydd Clerc y Cyngor yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor a bydd yn cofnodi trafodion, argymhellion a phenderfyniadau pob cyfarfod, gan gynnwys enwau'r rhai sy'n bresennol, unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb, ac unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

18. Cofnodion

Bydd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu dosbarthu'n brydlon i holl aelodau'r Pwyllgor.

Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl pob cyfarfod, ac nid hwyrach na saith diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod, bydd y Cyngor yn cyhoeddi nodyn electronig o'r cyfarfod yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor. Bydd hyn yn nodi enwau'r aelodau a oedd yn bresennol, unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb, unrhyw ddatganiadau o fuddiant, ac unrhyw benderfyniadau a wnaed, yn ddarostyngedig i eithrio gwybodaeth gyfrinachol neu esempt.

Gellir hefyd gyhoeddi cofnodion drafft neu gofnodion heb eu cadarnhau yn electronig yn dilyn y cyfarfod. Yna bydd y cofnodion yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned Llawn i'w cymeradwyo. Unwaith y cânt eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn, bydd y cofnodion cymeradwy yn cael eu cyhoeddi'n electronig, neu bydd y cofnod a gyhoeddwyd yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.

19. Adrodd i'r Cyngor Llawn

Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor Llawn drwy gyfrwng cofnodion, argymhellion neu adroddiadau ysgrifenedig ar wahân, fel y bo'n briodol. Y Cyngor Llawn fydd yn penderfynu a ddylid mabwysiadu, diwygio neu wrthod unrhyw argymhelliad gan y Pwyllgor.

20. Materion Ariannol a Gwariant Dirprwyedig

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant, dyfynbris, proses dendro neu fater cytundebol yn cael ei drin yn unol â'r Rheoliadau hynny.

O fewn cwmplas y gwariant a ddirprwyir o dan gymal 3, gall y Pwyllgor gymeradwyo gwariant hyd at ac yn cynnwys £5,000 (heb gynnwys TAW), ar yr amod:

- a. bod y gwariant yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- b. bod darpariaeth ddigonol yn bodoli o fewn pennawd cyllideb cymeradwy, cronfa wrth gefn glustnodedig, neu ffynhonnell gyllid arall sydd eisoes wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor Llawn.
- c. bod gofynion perthnasol Rheoliadau Ariannol y Cyngor, gan gynnwys gofynion ynghylch dyfynbrisiau neu gaffael lle bo'n berthnasol, wedi'u bodloni.
- d. bod cofnod priodol o'r penderfyniad a'r wybodaeth ariannol ategol wedi'i gynnwys yn y cofnodion; ac
- e. bod yr holl wariant a gymeradwyir o dan yr awdurdod dirprwyedig hwn yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

Lle nad yw cyfarfod o'r Pwyllgor wedi'i drefnu mewn digon o amser i ystyried y mater, gellir cyfeirio gwariant o fewn y terfyn hwn yn uniongyrchol at y Cyngor Llawn i wneud penderfyniad er mwyn osgoi oedi diangen.

Bydd unrhyw wariant dros £5,000, neu unrhyw fater sy'n newydd, yn ddadleuol, y tu allan i'r gyllideb, neu sydd wedi'i gadw i'r Cyngor Llawn o dan ddogfennau llywodraethu'r Cyngor, yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn i wneud penderfyniad.

21. Cyfrinachedd

Gall rhannau o gyfarfodydd y Pwyllgor hwn, unrhyw is-bwyllgor neu banel fod yn gyfrinachol, gyda'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio lle bo hynny'n briodol ac yn gyfreithlon, yn enwedig mewn perthynas â materion staffio neu faterion esempt eraill.

22. Cydymffurfiaeth a Llywodraethu

Wrth gyflawni ei rôl, bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â:

- a. Rheolau Sefydlog y Cyngor.
- b. Rheoliadau Ariannol y Cyngor.
- c. Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- d. polisiau'r Cyngor sy'n berthnasol i gyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, diogelu data a chwynion; a
- e. unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n berthnasol i gynghorau lleol a chyflogwyr yng Nghymru.

23. Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu gan y Cyngor Llawn o leiaf unwaith y flwyddyn a gellir ei ddiwygio drwy benderfyniad y Cyngor Llawn.